| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** : Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | |
| **DYDDIAD** : 28 Gorffennaf 2011 | |
| **PENNAETH GWASANAETH PERTHNASOL** : Lynn Ball | |
| **COMISIYNYDD PERTHNASOL** : Gareth Jones | |

## CAPASITI AC ADNODDAU YN YR UNED GYFIEITHU

Paratowyd yr adroddiad byr hwn i'ch diweddaru ar y sefyllfa yn yr Uned Gyfieithu o ran capasiti ac adnoddau a'r gallu i gwrdd â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

## CEFNDIR

Fel rhan o'r Adolygiad i Reolaeth y Sefydliad (OMR), gofynnwyd i Gyfarwyddwraig y Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro ddod o hyd i arbediad staffio o £225,000 o blith 33 o staff gyda chyfarwyddyd penodol i eithrio'r Adeiniau Adnoddau Dynol a Sgriwtini o'r toriadau hyn yn dilyn y feirniadaeth ar y ddwy adain yn yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol cyntaf.

Cafwyd gwared ar 6 o swyddi ac roedd swydd wag yn yr Uned Gyfieithu yn dilyn fy mhenodi i swydd y Pennaeth yn dilyn ei ymddeoliad, yn un ohonynt. Roedd hyn yn cyfateb i golli 25% o gapasiti cyfieithu yn yr Adain.

Hyd at eleni, roedd yr Adain â chyllideb fechan (£6,000) ar gyfer cyflogi cyfieithwyr preifat i gynorthwyo ar adegau o bwysau. I wneud i fyny am golli'r swydd, roedd bwriad i ychwanegu £10,000 at y gyllideb honno ond rwyf wedi cael cadarnhad mai dim ond £7,000 fydd ar gael ar gyfer eleni.

## Y SEFYLLFA GYFREDOL

Fel Uned, rydym hyd yma wedi cwrdd â'n targedau chwarterol o ran cyfieithu ar bapur a chyfieithu ar y pryd ac mae hynny i'w briodoli i ymrwymiad a gwaith caled y tîm cyfieithu. Mae'n deg tybio felly bod ein record perfformiad hefyd wedi dylanwadu ar y penderfyniad i ddileu'r swydd.

Cafwyd cwynion yn ddiweddar ynghylch diffyg gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn ambell gyfarfod ac adroddiadau uniaith Saesneg yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau. Digwyddodd hynny oherwydd rhybudd hwyr neu ddim rhybudd o gwbl. Nid oedd yr adroddiadau uniaith Saesneg wedi cael eu hanfon i'r Uned i'w cyfieithu. Rhaid cofio hefyd, mai dim ond oddeutu 50% o'n gwaith sy'n waith i bwyllgorau, mae cymaint â hynny eto o waith cyffredinol i'r Adrannau, e.e. disgrifiadau swydd, polisïau, llythyrau,

gwaith ar gyfer y wefan ac ati, sydd hefyd yn wasanaeth pwysig, i'r cyhoedd yn amlach na pheidio.

Ar ôl dweud hyn, mae'r pwysau ar yr Uned yn cynyddu ac ni fedraf sicrhau y bydd pethau'n parhau fel hyn oherwydd mae pen draw i'r hyn y gellwn ei gyflawni. Nid yw'r gwaith wrth gwrs wedi lleihau. Mae'r baich cyfieithu ar y pryd yn drymach gyda'r angen i ffeirio'n fwy aml. Mae mwy a mwy o grwpiau anffurfiol/tasg a gorffen a chyfarfodydd mewnol a phartneriaethau yn cael eu sefydlu sy'n ychwanegu at y baich gwaith cyfieithu ar y pryd ac ysgrifenedig. Mae nifer yr adroddiadau hwyr hefyd yn faich ychwanegol am eu bod yn rhoi adain dan bwysau mawr yn union cyn anfon allan y rhaglenni.

Ni wyddys eto beth fydd effaith cydweithio ac mae'r cyllid yr oedd nifer o'r partneriaethau a'r strategaethau yn ei gael gan Lywodraeth Cymru wedi dod i ben. Rhydd hyn mwy o bwysau ar yr adain oherwydd nid oes gan y cyrff partneriaethol gyfieithwyr neu arian i dalu am y gwasanaeth. Rwyf eisoes wedi trafod hyn gyda rhai uwch swyddogion sy'n ymwneud â chydweithio a byddant yn codi'r mater yn y partneriaethau perthnasol.

**FFORDD YMLAEN**

Fel y gellwn geisio parhau i gwrdd â'n targedau, bwriedir defnyddio'r £13,000 i allanoli gwaith cyfieithu ar-y-pryd yn bennaf oherwydd mae'n rhatach (tua £25 yr awr o gymharu â hyd at £80 fesul 1,000 o eiriau am waith ysgrifenedig) ac yn ein rhyddhau ni i ganolbwyntio ar waith papur neu i wasanaethu dau neu fwy o bwyllgorau sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd. Wrth gwrs, petai aelod o'r tîm yn sâl am gyfnod, byddai'n draul ar y gronfa wrth gefn. Ymhen chwe mis, byddwn yn gwybod a yw'r cyllid ychwanegol yn ddigonol neu a fydd angen adolygu strwythur staffio'r adain.

**ARGYMHELLIAD**

Adolygu'r sefyllfa mewn chwe mis neu'n gynt os daw capasiti'n broblem ddifrifol neu os methir â chydymffurfio gyda'r Cynllun Iaith Gymraeg.

**Judith Thomas**
**Rheolydd Gwasanaethau Cyfieithu**